# DATGANIAD PRIFYSGOL CAERDYDD AR ATAL CAETHWASIAETH FODERN A MASNACHU POBL 2023/24

## CYFLWYNIAD

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn torri hawliau dynol sylfaenol. Mae sawl ffurf ar gaethwasiaeth fodern, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, gwaith dan orfod a masnachu pobl, a’r hyn sy’n gyffredin rhyngddynt i gyd yw bod rhywun yn amddifadu rhywun arall o’i ryddid er mwyn ei ecsbloetio er budd personol neu fasnachol.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i wella ei harferion i fynd i’r afael â chaethwasiaeth a masnachu pobl. Er mwyn gwneud hyn, rydym am ddeall risgiau caethwasiaeth fodern a sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern i’w chael yn ein busnes a’n cadwyn gyflenwi ein hunain.

Mae’r datganiad hwn yn cael ei wneud yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a dyma ein datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy’n dod i ben ar 31/07/2024. Ar ben hynny, mae'r datganiad hwn yn nodi'r hyn y mae'r Brifysgol yn ei wneud mewn perthynas â Chôd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi, y mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i'w gefnogi.

## POLISÏAU

Mae'r Brifysgol yn adolygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau’n rheolaidd. Mae’n gwneud hyn er mwyn sicrhau ei bod yn cadw at ei gair i weithredu ag uniondeb ac yn foesegol yn achos ei holl gysylltiadau busnes. Mae hyn, felly, yn hwyluso’r gwaith o weithredu a gorfodi systemau a mesurau rheoli effeithiol i leihau’r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn unrhyw ran o gadwyn gyflenwi’r Brifysgol.

Mae'r polisïau a'r prosesau sydd ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Cyflogwr Cyflog Byw achrededig
- Polisi Recriwtio a Dethol, gan gynnwys yr amryw wiriadau ‘hawl i weithio’, contractau cyflogaeth a rheoliadau ynghylch cyflogi gweithwyr ifanc
- Glynu wrth y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith a’i monitro
- Trefniadau gweithio hyblyg i gefnogi'r hawl statudol sylfaenol o ran amser i ffwrdd – mae hawl alwedigaethol fel arfer yn rhagori ar y trothwy statudol sylfaenol

- Cynllun Gwerthuso Swyddi sy'n berthnasol i bob swydd yn y sefydliad i sicrhau cyflog cyfartal
- Fframwaith Polisi Cyflogaeth sy'n nodi'r disgwyliadau o ran ymddygiad y cyflogwr/cyflogeion
- Polisi Chwythu'r Chwiban y gellir ei ddefnyddio i roi gwybod i'r Prif Swyddog Gweithredu neu'r Dirprwy Is-ganghellor am unrhyw faterion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth neu fasnachu pobl – byddai'r Brifysgol yn ymchwilio i unrhyw honiadau sy'n cael eu gwneud o dan y polisi hwn ac yn cymryd camau priodol yn erbyn unrhyw aelod o'r staff y gwelwyd ei fod wedi torri polisïau perthnasol y Brifysgol
- Canllawiau Gweithwyr Asiantaeth i wneud yn siŵr bod gan weithwyr asiantaeth hawliau sy'n gyfwerth â hawliau'r staff parhaol
- Polisi Caffael Cyfrifol a gafodd ei lansio ym mis Gorffennaf 2024 i sicrhau ein bod yn ystyried ein heffaith ar yr amgylchedd a chymdeithas wrth wneud penderfyniadau prynu

Mae ein Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio'n cyflwyno ymrwymiad i sicrhau amgylchedd cynhwysol lle mae pawb sy'n rhan o gymuned y Brifysgol yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gellir codi materion sy'n ymwneud ag aflonyddu, bwlio a gwahaniaethu o dan y polisi hwn, sy'n cael ei gefnogi gan rwydwaith o gynghorwyr lles. Hefyd, mae'r timau sy'n cefnogi myfyrwyr wedi creu tudalennau cyngor sy'n rhoi gwybod pa gyngor sydd ar gael i'r rhai y mae trais rhywiol a phriodas dan orfod yn effeithio arnynt.

Yn 2020/21, cafodd ein Polisi Caffael a'r canllawiau cysylltiedig eu diweddaru i gyd-fynd â Datganiad Polisi Caffael Cymru. Cafodd y polisi ei ddiweddaru i nodi bod yn rhaid i ni ystyried bob tro wrth gaffael ym mha ffordd y gall y fanyleb, y telerau a'r fethodoleg werthuso helpu i sicrhau ateb sy'n cyfrannu gwerth cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern i'w chael yn ein cadwyn gyflenwi.

Mae'r Polisi Caffael hefyd yn cynnwys adran benodol ar gaethwasiaeth fodern, sy'n adlewyrchu'r ymrwymiadau yn y datganiad hwn ac yn datgan yn glir bod y Brifysgol yn disgwyl yr un safonau uchel gan bob contractiwr, cyflenwr a phartner busnes arall. Mae hefyd yn cynnwys gwaharddiadau penodol rhag defnyddio llafur gorfodol, llafur sy'n deillio o fasnachu pobl neu unrhyw un sydd wedi'i gaethiwo neu dan reolaeth rhywun arall, boed yn oedolyn neu'n blentyn.

Mae'r polisi diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i holl staff a chymuned y Brifysgol gadw llygad am arwyddion o gaethwasiaeth fodern yn ein cadwyn gyflenwi, yn enwedig pan fydd nwyddau risg uchel dan sylw, a herio

neu roi gwybod am bryderon. Mae’n rhaid i staff a chymuned y Brifysgol roi gwybod am unrhyw amheuon neu bethau y maent wedi sylwi arnynt i'r Cyfarwyddwr Caffael, a fydd yn ymchwilio ymhellach.

Bydd y Polisi Caffael yn cael ei ategu gan y Polisi Caffael Cyfrifol, a gaiff ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2024, a’r Côd Ymddygiad Cyflenwyr, a gaiff ei gyflwyno ym mlwyddyn ariannol 2024/25. Nod y Polisi Caffael Cynaliadwy yw sicrhau penderfyniadau prynu cyfrifol, a nod y Côd Ymddygiad Cyflenwyr yw cael cyflenwyr i ymrwymo i arferion busnes cyfrifol ganddynt hwy eu hunain a’u partneriaid cyflenwi.

## PROSESAU DIWYDRWYDD DYLADWY AR GYFER ATAL CAETHWASIAETH A MASNACHU POBL YN EIN CADWYN GYFLENWI

Mae’r Brifysgol yn diwallu ei hanghenion am nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy’n sicrhau gwerth am arian ar sail costio oes gyfan o ran sicrhau budd nid yn unig i’r sefydliad ond hefyd i gymdeithas a’r economi, wrth leihau niwed i’r amgylchedd hyd yr eithaf.

Mae ein prosesau tendro’n cynnwys cwestiynau cymhwystra ynghylch polisïau a gweithdrefnau’r cynigwyr, a hynny er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio gyda’r sefydliadau hynny’n unig sy'n nodi ac yn dileu llafur gorfodol yn eu gweithrediadau eu hunain. Er mwyn sicrhau bod pawb yn ein cadwyn gyflenwi’n cydymffurfio â'n gwerthoedd, mae ein telerau contractiol yn ei gwneud yn ofynnol i’n cyflenwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw fath o gaethwasiaeth i’w chael yn eu cadwyni cyflenwi uniongyrchol a/neu anuniongyrchol hwy.

Mae ein Strategaeth Gaffael yn canolbwyntio ar gaffael cyfrifol a chynaliadwy, ac mae’n parhau i’n helpu i gyflawni ein hymrwymiadau ym maes caethwasiaeth fodern.

Cafodd cynllun gweithredu’r strategaeth ei ddatblygu yn 2020/21, a pharhaodd y Brifysgol i’w ddatblygu a'i weithredu ymhellach yn 2022/23. Roedd y cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu elfen ‘cyfrifol a chynaliadwy’ ein Polisi Caffael ymhellach, gan gynnwys datblygu cyfres o safonau a disgwyliadau ar gyfer cyflenwyr drwy ymgorffori arferion cyflogaeth deg yn ein cadwyn gyflenwi, rhoi hyfforddiant i’r staff a chynnwys amcanion ‘cyfrifol a chynaliadwy’ wrth bennu ac adrodd ar amcanion blynyddol. Mae'r rhain wedi arwain at y Polisi Caffael Cyfrifol a'r Côd Ymddygiad Cyflenwyr.

Ym mlwyddyn ariannol 2020/21, cafodd Côd Ymarfer Cyllid Allanol y Brifysgol ei ddiweddaru hefyd er mwyn cyfeirio'n benodol at yr angen i ymchwilio i honiadau sy'n ymwneud â hawliau dynol a chaethwasiaeth fodern yn rhan o brofion 'diwydrwydd dyladwy'.

Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, cafodd strwythur y tîm caffael ei ailystyried ymhellach i gefnogi'r Polisi Caffael a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Cafodd y tîm ei ailstrwythuro'n sylweddol yn ystod 2023 i alluogi Prifysgol Caerdydd i reoli prosesau'n fwy effeithiol. Yn dilyn adolygu'r gadwyn gyflenwi ym mlwyddyn ariannol 2021/22, cafodd nifer y cyflenwyr ei lleihau 63%. Arweiniodd ymarfer pellach yn 2022/23 at ostyngiad ychwanegol o 5%, gan gynnwys gostyngiad ychwanegol o 10% yn 2023/24. Mae hyn yn galluogi'r tîm caffael i reoli'r gadwyn gyflenwi'n well, gan gynnwys lleihau risgiau a gwella sut mae'r gadwyn gyflenwi'n cael ei goruchwylio. Bydd y gwaith hwn yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â'n gwariant gwerth isel.

Hefyd, yn ystod blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23, gweithiodd y Brifysgol gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i gynnal dadansoddiad bwlch o bolisïau ac arferion y Brifysgol a'r rhai a gafodd eu hargymell gan WRAP i gefnogi prosesau caffael cynaliadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn o gymorth wrth geisio deall a mynd i'r afael â meysydd gwella posibl i atal caethwasiaeth fodern, e.e. drwy gyflwyno Asesiad Risg Cynaliadwyedd i nodi'r risgiau amgylcheddol, y risgiau cymdeithasol a'r risgiau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'n gofynion tendro yn y cyfnod cyn tendro.

Yn rhan o'n Polisi Caffael Cyfrifol, mae'r Gwasanaethau Caffael wedi datblygu offeryn Asesiad Risg Caffael Cyfrifol sy'n amlinellu'r risgiau amgylcheddol, y risgiau cymdeithasol a'r risgiau llywodraethu ar gyfer pob un o'n categorïau gwariant, megis caethwasiaeth fodern, amodau gwaith/iechyd a diogelwch, a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**CYDWEITHIO**

Mae'r Brifysgol yn cydweithio â chonsortia prynu eraill ym maes addysg uwch a sefydliadau eraill ar brosesau asesu risg a diwydrwydd dyladwy er mwyn rhannu arfer da ac osgoi dyblygu ymdrech i'r prifysgolion a'r cyflenwyr allanol.

Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Caffael Addysg Uwch (HEPA) a sefydliadau ym mhob rhan o'r sector, gan fod yn aelod o Grŵp Caffael Cyfrifol HEPA.

**HYFFORDDIANT**

Cymerodd uwch-staff y Gwasanaethau Caffael ran mewn gweminarau a chyflwyniadau, gan gynnwys hyfforddiant gan Slave-Free Alliance a hyfforddiant 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.

Yn ystod 2022/23, cymerodd y tîm caffael ran mewn hyfforddiant gan ein darparwr hyfforddiant mewnol, gan gynnwys gweminarau ar ystod o bynciau cydymffurfio, a oedd yn cynnwys caethwasiaeth fodern, nodi gwledydd a diwydiannau risg uchel, a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â gweithio yn yr amgylcheddau hyn i staff caffael.

Mae ymrwymiad y Brifysgol i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl hefyd yn cael ei gyfleu yn y cyflwyniad Cydymffurfiaeth a Risg sy'n cael ei roi yn ystod diwrnod ymsefydlu'r Brifysgol i bob aelod newydd o'r staff.

Yn ystod 2023/2024, cafodd y tîm caffael a 114 o randdeiliaid mewnol hyfforddiant ar y Polisi Caffael Cyfrifol a sut i'w ddefnyddio'n ymarferol wrth wneud penderfyniadau prynu.



Llofnod:
Patrick Younge, Cadeirydd y Cyngor